



> "Roedd angen i ni ddatblygu gweithlu lleol lle roedd gennym fylchau o ran sgiliau allweddol, ac fe wnaeth Rhaglen Brentisiaethau fodloni ein gofynion i gyd. Mae prentisiaid yn dysgu sgiliau allweddol ac yn gyfnewid am hynny, mae gan y BBC weithlu dynamig er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni yn cyrraedd y safon a ddisgwylir gan ein gwylwyr"
> Catrin Whitmore, Pennaeth Talent Cynhyrchu - **BBC Cymru Wales**

Mae astudiaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cyfrifo bod pob £1 sy'n cael ei gwario ar Brentisiaethau gan y Llywodraeth yn arwain at enillion o **£18m** ar gyfartaledd.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Alinio prentisiaethau gydag anghenion yr economi

Mae buddsoddi mewn sgiliau yn fuddsoddiad yn nyfodol y wlad, busnesau a phobl Cymru.

Ein blaenoriaeth yw alinio a chodi lefel y farchnad sgiliau gyda system sy'n ymateb i'r newidiadau mewn diwydiant, yn arbennig y sectorau hynny sy'n gyfrifol am dwf a ffyniant.

Nod Llywodraeth Cymru yw adeiladu ar fframweithiau presennol er mwyn cynnig prentisiaethau sy'n ymateb i anghenion yr economi. Yr ymrwymiad yw creu lleiafswm o 100,000 o Brentisiaethau ar gyfer pobl o bob oed erbyn 2022.



Mae cyfraddau llwyddiant y fframwaith prentisiaethau dros **80 y cant** yn gyson

### Ein gweledigaeth erbyn 2022

- Cynyddu nifer y prentisiaid 16-19 oed
- Mynd i'r afael â phrinder sgiliau
- Datblygu sgiliau lefel uwch
- Ehangu Prentisiaethau Uwch
- Datblygu llwybrau sgiliau

## Sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn

**Cyflwyno rhaglen ar gyfer Pobl o Bob Oed,** cynyddu nifer y bobl sy'n gallu elwa ar brentisiaethau o ansawdd uchel

**Cefnogi dulliau o fesur perfformiad,** drwy ganolbwyntio ar sicrhau cyflogaeth sy'n ystyrlon ac yn gynaliadwy

**Cefnogi dysgwyr i gael Prentisiaethau,** drwy sicrhau mynediad hawdd i'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd o ran y system ymgeisio a recriwtio

**Darparu prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg,** sicrhau bod cyfle i bob dysgwr gynnal a datblygu ei sgiliau yn y Gymraeg

**Sefydlu system newydd ar gyfer adolygu a datblygu prentisiaethau,** gan sicrhau bod prentisiaethau wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion cyflogwyr ac yn ymateb i newidiadau mewn diwydiannau

## Mae prentisiaethau'n cynnig

- budd sylweddol o'r buddsoddiad
- ffordd o harneisio dawn a chreadigrwydd ffres a newydd
- manteision sylweddol i'r economi
- cyfle i ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â swyddi
- ffordd effeithiol o fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc
- cyfraniad at weithgarwch economaidd sy'n ychwanegu mwy o werth
- gweithlu sy'n fwy cadarnhaol a brwdfrydig sy'n meddu ar y sgiliau allweddol y mae eu hangen ar economi a busnesau ledled Cymru
- llwybr i ddatblygu sgiliau arbenigol er mwyn cadw i fyny â'r dechnoleg a'r arferion gwaith diweddaraf mewn sectorau ledled Cymru

### Erbyn 2022, bydd angen y bobl ganlynol ar Gymru ...

- 4,500 o Wyddonwyr
- 11,000 o Weithwyr Proffesiynol TG a Thelathrebu
- 19,000 o Gyfrifwyr a Swyddi Cyllid
- 17,000 o Swyddi yn y Diwydiant Adeiladu
- 8,000 Beirianwyr
- 4,300 o Dechnegwyr Gwyddoniaeth a Pheirianneg

> Mae gan ein prentisiaid sgiliau sydd wedi'u teilwra ar gyfer y sector busnes ac awyrennau. Gan ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn sgiliau, rydym wedi llwyddo i wella perfformiad a chynyddu cynhyrchiant"
> Louise Burnell, Cydlynydd Prentisiaid - **GE Aviation Wales**

**Dysgwch ragor am Brentisiaethau yng Nghymru**
www.businesswales.gov.wales/skillsgateway 03000 6 03000 facebook.com/apprenticeshipscymru @apprenticewales

Prentisiaethau
Apprenticeships

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund